

# CANLLAWIAU CYMORTH DIGIDOL

## SIOPA


Gwybod sut i siopa ar-lein mewn archfarchnadoedd lleol fel Asda, Tesco a Morrisons.



## TESCO

- I gychwyn arni, rhaid i ni fynd ar eich gwe borwr a theipio [tesco.com](https://www.tesco.com) i'r blwch ac yna **ENTER** ar yr allweddell neu **GO** os ydych chi ar ffôn neu dabled.

- Wedyn, dewiswch **Groceries** o frig ochr chwith y dudalen ac yna **Shop Groceries**



- Rŵan bydd angen i chi gofrestru gyda Tesco a chreu cyfrif ar-lein – cliciwch **Register**.

Sign in to start shopping

Already a customer?

Sign in


New to Tesco?

Register

- Dylech lenwi a chwblhau'r dudalen **Account Details** sy'n cynnwys eich enw, cyfeiriad a rhif ffôn a chliciwch ar **Create account**

- Mae eich cyfrif bellach wedi ei sefydlu – cliciwch ar **Continue shopping**

- Rŵan mae angen i chi archebu slot ar gyfer yr amser y byddech chi'n hoffi cael eich neges wedi ei ddanfon – dewiswch **Book a slot**



- Wedyn dewiswch **Home Delivery** ar y dudalen hon. Rŵan byddwch yn gallu chwilio am ddyddiad ac amser sydd ar gael ar gyfer danfon eich neges. Cliciwch i ddewis eich dyddiad a'ch amser. Ychwanegwch unrhyw gyfarwyddiadau danfon penodol ac yn olaf cliciwch ar **Start Shopping**.

20:00 - 21:00	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	£ 4.50	Unavailable Collect?	£ 4.50
21:00 - 22:00	Unavailable Collect?	Booked	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	£ 4.50	Unavailable Collect?	£ 4.50
22:00 - 23:00	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	Unavailable Collect?	£ 4.50	Unavailable Collect?	£ 4.50

**Delivery instructions**  
Let us know how we can help. You can share any specific needs, directions or delivery instructions.

**Enter your instructions (optional)**  
Can I have help unloading the shopping into my kitchen?  
200 Characters max


**Home Delivery Slot booked home**  
Sat, 24 Oct 2020, 21:00 - 22:00  
Pick, pack & deliver: £ 4.50

Please checkout your order by **17:07** to ensure you don't lose the slot


**Start shopping**

- Rŵan, gallwch ddechrau siopa ac ychwanegu eitemau i'ch basged.

- Gallwch chwilio drwy'r rhestr nwyddau ar y chwith ar y dudalen neu gallwch ddefnyddio'r dewis Chwilio ar frig y dudalen:



- Er mwyn ychwanegu eitemau i'ch basged, y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw clicio ar **Add** o dan yr eitem.



- Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich siopa, mae angen i chi ddewis o frig ochr dde y dudalen.

Checkout

- Rŵan, byddwch yn mynd i adolygu'r eitemau yn eich basged, ac os yw popeth yn iawn, dewiswch

Continue checkout

- Wedyn, byddwch yn mynd at gynigion arbennig lle gallwch ychwanegu eitemau ychwanegol. Unwaith eto, cliciwch ar

Continue checkout

er mwyn parhau.

- Yn olaf, byddwch yn mynd at grynodedb o'r archeb, ble gallwch wirio'r holl fanylion danfon a'r dewisiadau pacio cyn clicio ar

Continue to payment

- Rŵan bydd angen i chi ychwanegu manylion eich cerdyn a'ch cyfeiriad anfonebu. Unwaith y byddwch wedi cwblhau pob maes angenrheidiol, cliciwch


Confirm Order

- Dylech dderbyn cadarnhad o'ch archeb drwy -bost -bydd yr e-bost yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am eich archeb ac unrhyw newid y gallech ei wneud iddi os oes angen.

MORRISONS


- I gychwyn arni, rhaid i ni fynd ar eich gwe borwr a theipio morrisons.com i'r blwch ac yna **ENTER** ar yr allweddell neu **GO** os ydych chi ar ffôn neu dabled.

- Cliciwch ar **START YOUR FIRST SHOP**. Byddwch yn dod i dudalen ble bydd angen i chi roi eich cod post i mewn er mwyn gwirio eu bod yn cynnig slotiau danfon yn eich ardal chi.




- Os ydyn nhw'n cynnig danfon i'ch ardal chi, gallwch gwblhau'r manylion cofrestru er mwyn sefydlu eich cyfrif siopa ar-lein.







- Byddwch rŵan yn mynd yn ôl i'r brif dudalen ble gallwch gychwyn siopa. Yn gyntaf, mae angen i chi **a Slot**




- Wedyn cliciwch ar **Home Delivery**




- Rŵan, bydd angen i chi ychwanegu eich cyfeiriad – cliciwch **ADD AN ADDRESS**  
Dylai eich cod post fod i'w weld yn barod, felly'r cyfan sydd angen i chi ei  
wneud yw clicio ar **FIND ADDRESS** a dewis eich cyfeiriad o'r rhestr a  
welir – Cliciwch 


- Y cam nesaf yw dewis slot danfon – gallwch symud drwy'r dyddiadau drwy  
glicio ar **NEXT DAY** o'r dde o'r dudalen.



- Ar ôl i chi ddewis eich slot danfon, gallwch ddechrau eich siopa drwy  
glicio ar **BROWSE**.



- Gallwch chwilio drwy'r rhestr nwyddau ar y chwith ar y dudalen neu gallwch  
ddefnyddio'r dewis Chwilio ar frig y dudalen:



- Er mwyn ychwanegu eitemau i'ch basged, y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw clicio ar **Add** o dan yr eitem.


- Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich siopa, mae angen i chi ddewis yr eicon **CHECKOUT** o frig ochr dde y dudalen.



- Rŵan, byddwch yn mynd i adolygu'r eitemau yn eich basged, ac os yw popeth yn iawn, dewiswch



- Wedyn, bydd angen i chi ychwanegu eich manylion talu drwy glicio ar



- Yn olaf, gallwch gadarnhau eich archeb drwy ddewis




- Dylech dderbyn cadarnhad o'ch archeb drwy -bost -bydd yr e-bost yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am eich archeb ac unrhyw newid y gallech ei wneud iddi os oes angen.

ASDA

- I gychwyn arni, rhaid i ni fynd ar eich gwe borwr a theipio asda.com i'r blwch ac yna **ENTER** ar yr allweddell neu **GO** os ydych chi ar ffôn neu dabled.

- Cliciwch ar **REGISTER** ar frig ochr dde'r dudalen.



- Cwblhewch y manylion cofrestru – teipiwch eich cyfeiriad e-bost a chrëwch gyfrinair – cliciwch **REGISTER**

Email

Password  
 [Show](#)

Weak Strong

[What makes a password strong?](#) ▼

Yes, I want Asda and George to contact me with offers, recipes, fashion and community news.

[Register](#)

Unsubscribe any time. Our [Privacy Centre](#) tells you about your rights and how we use your information.



- Wedyn, bydd gofyn i chi gwblhau sefydlu eich cyfrif drwy gadarnhau eich cod post. Rhwch eich cod post yn y maes a chliciwch y blwch sy'n derbyn y telerau ac amodau.

Complete your account set up ✕


Before you shop on Asda Groceries we need your postcode. This can be your home postcode or your preferred Click & Collect location.

Postcode

I've read and accepted the Grocery [Terms & Conditions](#)

**Continue**

- Rŵan bydd angen i chi glicio ar **BOOK A DELIVERY**



- Rŵan bydd angen i chi glicio ar **BOOK A DELIVERY**. Rhwch eich cod post a rhif eich cartref a chliciwch **FIND**

Choose your slot

Your postcode:

House no./name:

**Cancel**

**Find**


-Dewiswch eich cyfeiriad o'r rhestr ddisgynnol neu teipiwch eich cyfeiriad eich hun os nad yw ar y rhestr a chliciwch **Save this Address**

- Y cam nesaf yw dewis slot danfon – gallwch symud drwy'r dyddiadau drwy glicio ar **NEXT SLOT** i'r dde o'r dudalen. cliciwch i ddewis slot a chliciwch **Back to shop**


- Ar ôl i chi ddewis eich slot danfon, gallwch ddechrau ar eich siopa.



- Gallwch chwilio drwy'r rhestr siopa wrth glicio ar **GROCERIES** neu gallwch chwilio am eitem benodol drwy gyfrwng y blwch chwilio ar frig y dudalen:



- Er mwyn ychwanegu eitemau i'ch basged, y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw clicio ar **ADD** o dan yr eitem.
- Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich siopa, mae angen i chi ddewis **CHECKOUT** o ochr dde y dudalen.




- Cewch y dewis i ychwanegu eitemau eraill a gynigir – cliciwch ar **Continue checkout** ar frig ochr dde'r dudalen.

- Rŵan fe welwch y dudalen Crynodeb Archeb lle bydd angen i chi ychwanegu eich enw, rhif cyswllt ac unrhyw gyfarwyddiadau danfon ac yn olaf, eich manylion talu. Gallwch arbed manylion eich cerdyn ar gyfer archebion yn y dyfodol. Yn olaf cliciwch ar **CONFIRM ORDER**.


- Dylech dderbyn cadarnhad o'ch archeb drwy e-bost – bydd yr e-bost yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am eich archeb ac unrhyw newid y gallech ei wneud iddi os oes angen.

- Gyda phob un o'r archfarchnadoedd uchod gallwch ddewis ail-archebu eich archeb olaf fydd yn arbed i chi orfod ychwanegu popeth at eich archeb bob tro rydych yn dymuno siopa ar-lein. Dyma sut mae gwneud hyn drwy wefan ASDA – bydd y broses yn debyg iawn i'r archfarchnadoedd eraill.

- Unwaith y byddwch wedi cadw slot ddanfon, cliciwch ar **YOUR ORDERS** o frig y sgrin.



- Bydd rhestr o bob un o'ch archebion diweddar yno a gallwch ddewis **ORDER AGAIN** o unrhyw un o'r archebion a restrir.



- Yna fe welwch y neges ganlynol a gallwch ddewis **ADD TO TROLLEY** os ydych yn hapus i ddal ati.



- Yna gallwch fynd trwy'r eitemau ar eich rhestr a newid nifer yr eitemau yr ydych eu hangen gan ddefnyddio'r arwydd plws neu minws.



- Os cliciwch ar y tri dotyn fel y dangosir isod, gallwch hefyd ddewis cael gwared ar rai o'ch eitemau o'r rhestr.



- Unwaith y bydd pob newid wedi ei wneud gallwch fynd ymlaen i'r man talu.